# Canllaw i atal, adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn

## Yn weithredol o Tachwedd 2025

Mae'r ddogfen hon yn rhoi cyngor ac arweiniad i ganolfannau ac eraill ynghylch atal, adrodd am ac ymchwilio i achosion o gamymddwyn gan ymgeiswyr, canolfannau a staff canolfannau i CBAC. Amlinellir hefyd y broses o wneud penderfyniadau, sancsiynau a'r weithdrefn apelio.

## Cynnwys

1. Cyflwyniad ..... 3
2. Diffinio camymddwyn ..... 3
3. Cyfrifoldebau staff y ganolfan ..... 5
4. Atal camymddwyn ..... 6
5. Adrodd am gamymddwyn ..... 8
   5.1 Camymddwyn gan ymgeiswyr ..... 8
   5.2 Camymddwyn gan staff y ganolfan ..... 9
   5.3 Camau i'w cymryd os oes amheuaeth o gamymddwyn ..... 9
6. Darparu tystiolaeth i gefnogi ymchwiliad o gamymddwyn ..... 10
7. Gwneud penderfyniadau a sancsiynau ..... 12
   7.1 Penderfyniadau – camymddwyn gan ymgeiswyr ..... 12
   7.2 Penderfyniadau –camymddwyn gan ganolfan a staff y ganolfan ..... 12
   7.3 Sancsiynau – camymddwyn gan ymgeiswyr ..... 13
   7.4 Sancsiynau – camymddwyn gan staff y ganolfan ..... 13
   7.5 Sancsiynau – camymddwyn gan ganolfan ..... 13
8. Apeliadau ..... 14

## 1. Cyflwyniad

Pwrpas y canllaw hwn yw rhoi arweiniad a chefnogaeth i ganolfannau sy'n cynnig cymwysterau CBAC/Eduqas. Lluniwyd y ddogfen i gefnogi canolfannau o ran atal, adrodd am a darparu tystiolaeth i gefnogi'r gwaith o ymchwilio i unrhyw honiadau neu amheuon o gamymddwyn neu unrhyw achosion gwirioneddol. Mae adrannau'r canllaw yn rhoi sylw i'r canlynol:

- Diffinio camymddwyn
- Cyfrifoldebau staff y ganolfan
- Atal camymddwyn
- Adrodd am gamymddwyn
- Ymchwilio i gamymddwyn
- Penderfyniadau a sancsiynau
- Apeliadau

Dylid darllen y canllaw hwn gyda dogfen gyfredol y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC) '*Amau Camymddwyn Polisïau a Gweithdrefnau*' (www.jcq.org.uk) (yn Gymraeg ar wefan CBAC).

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y canllaw hwn yn cydymffurfio â dogfennau Amodau Cydnabod Cyffredinol (Ofqual/CCEA) ac Amodau Cydnabod Safonol (Cymwysterau Cymru).

Mae dogfen Amodau Cydnabod y Rheoleiddwyr yn nodi bod rhaid i gyrff dyfarnu:

- sefydlu a chynnal gweithdrefnau ysgrifenedig cyfoes ar gyfer ymchwilio i unrhyw achos o gamymddwyn neu gamweinyddu sydd wedi'i amau neu ei honni, gan gydymffurfio â'r rhain bob amser.
- sicrhau bod ymchwiliadau'n cael eu cyflawni'n fanwl gywir, yn effeithiol a gan unigolion â'r cymhwysedd priodol nad oes ganddynt unrhyw ddiddordeb personol yn y canlyniad.

Gellir cysylltu â Thîm Camymddwyn CBAC ar camymddwyn@cbac.co.uk i gael arweiniad pellach am weithdrefnau camymddwyn.

## 2. Diffinio camymddwyn

### Beth yw camymddwyn?

'Camymddwyn' yw unrhyw weithred, cam gweithredu diofyn neu ymarfer sy'n torri'r Rheoliadau neu sy'n:

- arwain at ragfarn yn erbyn ymgeiswyr; **a/neu**
- tanseilio hyder y cyhoedd mewn cymwysterau; **a/neu**
- cyfaddawdu, ceisio cyfaddawdu neu'n gallu cyfaddawdu'r broses asesu, uniondeb unrhyw gymhwyster neu ddilysrwydd canlyniad neu dystysgrif; **a/neu**
- niweidio awdurdod, enw da neu hygrededd unrhyw gorff dyfarnu neu ganolfan neu unrhyw swyddog, gweithiwr neu asiant unrhyw gorff dyfarnu neu ganolfan.

Nid yw camymddwyn bob amser yn ymwneud yn uniongyrchol â sefyll arholiad. Mae CBAC yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gall mathau newydd neu annisgwyl o gamymddwyn ymddangos wrth i dechnolegau a natur a threfniadaeth canolfannau arholi newid.

Dylai canolfan hysbysu, casglu tystiolaeth ac adrodd yn ôl i CBAC am unrhyw honiadau o gamymddwyn neu o amau camymddwyn. Mae methiant i wneud hynny ynddo'i hun yn gamymddwyn.

Hefyd, mae methiant i weithredu fel sy'n ofynnol gan CBAC, neu i gydweithredu ag ymchwiliad CBAC yn gamymddwyn. Mae hyn yn cynnwys rhoi gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol yn fwriadol yn ystod ymchwiliad.

Gall rhai enghreifftiau o gamymddwyn gael effaith sylweddol ar ymgeiswyr a'u cymwysterau. Mae'n rhaid i CBAC hysbysu rheoleiddwyr cymwysterau am enghreifftiau penodol o gamymddwyn.

Mae **camymddwyn gan ganolfan** yn cyfeirio at:

- Unrhyw weithredoedd o gamymddwyn sy'n arwain at golli hyder ym mhennaeth neu uwch arweinwyr canolfan i gynnal gonestrwydd arholiadau ac asesiadau CBAC/CBAC Eduqas. Mae hyn fel arfer yn cynnwys camymddwyn lle mae elfen o fethiant systematig, torri polisïau neu gamymddwyn eang fel bod sancsiwn ar lefel canolfan yn briodol.

Mae **camymddwyn gan staff y ganolfan** yn cyfeirio at:

- camymddwyn a gyflawnir gan aelod o staff, contractwr (pa un ai wedi'i gyflogi dan gontract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau) neu wirfoddolwr mewn canolfan; **neu**
- unigolyn a benodwyd mewn unrhyw rôl arall gan ganolfan megis goruchwyliwr, gweithiwr cyfathrebu proffesiynol, addasydd iaith, cynorthwyydd ymarferol, anogwr, darllenydd neu ysgrifennydd.

Ymhlith enghreifftiau o gamymddwyn gan staff y ganolfan mae torri diogelwch, twyll, cymorth amhriodol i ymgeiswyr a chamweinyddu.

Mae **camymddwyn gan ymgeisydd** yn ymwneud â chamymddwyn gan ymgeisydd mewn cysylltiad ag unrhyw arholiad neu asesiad, yn cynnwys paratoi a dilysu unrhyw asesiadau di-arholiad gan gynnwys asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs, cyflwyno gwaith ymarferol, casglu portffolios o dystiolaeth asesu a chwblhau unrhyw arholiad.

Ymhlith enghreifftiau o gamymddwyn gan ymgeisydd mae cyflwyno deunyddiau heb eu hawdurdodi yn yr ystafelloedd arholiadau, torri amodau arholiad, cyfnewid, cael, derbyn neu drosglwyddo gwybodaeth a allai fod yn ymwneud â'r arholiad/asesiad, peidio ag adrodd am dderbyn gwybodaeth gyfrinachol am arholiad/asesiad (hyd yn oed os na ofynnwyd amdani), tramgwydd yn ymwneud â chynnwys gwaith yr ymgeisydd neu danseilio uniondeb arholiadau/asesiadau.

Mae dogfen y CGC *'Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau'* yn cynnwys rhestr gynhwysfawr o'r holl fathau o gamymddwyn, gan gynnwys camweinyddu.

## 3. Cyfrifoldebau staff y ganolfan

### Pwy sy'n gyfrifol am atal, adrodd, casglu'r wybodaeth y mae CBAC yn gofyn amdani a chyfathrebu ag unigolion y gallent neu na allent fod wedi camymddwyn?

Cyfrifoldeb cyffredinol Pennaeth y ganolfan yw gwneud hyn. **Rhaid** i bennaeth y ganolfan:

- Hysbysu CBAC **cyn gynted ag y bo'n bosibl** am unrhyw amheuon neu honiadau o gamymddwyn neu gamymddwyn gwirioneddol. Yr unig eithriad yw camarfer ymgeisydd a ddarganfuwyd mewn asesiadau mewnol a farciwyd gan y ganolfan cyn i'r ymgeisydd lofnodi ffurflen dilysu. Gall y rhain cael ei ddelio yn fewnol yn y ganolfan, oni bai ei bod yn ymwneud a torriad o amodau'r asesiad e.e. mediant nodiadau, cyfarthrebu a ymgeisydd arall neu os yw deunydd asesu cyfrinachol WJEC wedi cael ei dorri. Pan fydd achos o gamymddwyn gan aelod o staff yn cael ei ddarganfod, rhaid i Bennaeth y Ganolfan hysbysu CBAC ar unwaith, heb ystyried a yw'r ymgeisydd (ymgeiswyr) wedi llofnodi'r ffurflenni dilysu ai peidio.
- rhoi gwybod am gamymddwyn gan ddefnyddio'r ffurflenni priodol fel y nodir yn adran 4.2 dogfen y CGC, *Amau Camymddwyn – Polisïau a Gweithdrefnau*.
- bod yn atebol am sicrhau bod y ganolfan a staff y ganolfan yn cydymffurfio bob amser â chyfarwyddiadau CBAC mewn perthynas ag ymchwiliad.
- sicrhau, os bydd angen dirprwyo casglu gwybodaeth i **uwch aelod o staff y ganolfan, bod yr uwch aelod hwnnw o staff y ganolfan yn annibynnol. Ni ddylai fod yn gysylltiedig â'r adran na'r unigolyn (unigolion) sy'n destun yr amheuaeth o gamymddwyn.** Dylai Pennaeth y Ganolfan sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau a allai beryglu'r ymchwiliad.
- ymateb yn gyflym ac yn agored i bob cais i gasglu gwybodaeth yn ymwneud â honiad o gamymddwyn. Bydd hyn er lles staff y ganolfan, ymgeiswyr ac unrhyw rai eraill dan sylw.
- ymateb yn gyflym ac yn agored i bob cais am wybodaeth yn ôl cais CBAC.
- cydweithredu a sicrhau bod eu staff yn gwneud hynny hefyd, ag ymchwiliad i honiad o gamymddwyn, pa un ai yw'r ganolfan yn ymwneud yn uniongyrchol â'r achos ai peidio.
- sicrhau bod aelodau o staff ac ymgeiswyr yn cael eu hysbysu o'u cyfrifoldebau a hawliau unigol fel y nodir yn y canllawiau hyn.
- anfon ymlaen unrhyw ohebiaeth a gwybodaeth gan CBAC at staff y ganolfan a/neu ddarparu manylion cyswllt y staff dan sylw fel y gall CBAC ei hun wneud hynny.
- cydymffurfio bob amser â'r ddeddf diogelu data.
- trosglwyddo unrhyw rybudd neu hysbysiad o sancsiynau/cosbau i'r unigolion dan sylw a sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag unrhyw geisiadau a wneir gan CBAC o ganlyniad i achos o gamymddwyn.

Gall pobl eraill yn y ganolfan megis y Swyddog Arholiadau, athrawon, goruchwylwyr ac unigolion sy'n cefnogi ymgeiswyr â threfniadau mynediad fod yn allweddol er mwyn atal camymddwyn ac adrodd am achosion i Bennaeth y Ganolfan neu'n uniongyrchol wrth CBAC, fel y bo'n briodol. Dylai pob aelod o staff dderbyn hyfforddiant digonol a bod yn gymwys i gyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â gofynion cynnal arholiadau ac asesiadau.

## 4.0 Atal camymddwyn

Yn ymarferol, gall Pennaeth y Ganolfan ac aelodau eraill o staff wneud sawl peth i leihau neu ddileu'r perygl o gamymddwyn.

### 4.1 Atal camymddwyn/camweinyddu gan staff

- Sicrhau bod staff yn deall gofynion cynnal arholiadau fel y nodwyd yn nogfen y CGC *'Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau'* (yn Gymraeg ar wefan CBAC).
- Sicrhau bod pob dogfen gwybodaeth i ymgeiswyr gan y CGC sy'n berthnasol i arholiadau yn cael ei rhannu, a bod posteri'r CGC gan gynnwys y posteri '*Dim Ffonau Symudol*' a '*Rhybudd i Ymgeiswyr*' yn cael eu harddangos mewn man amlwg.
- Cofio mai cyfrifoldeb Pennaeth y Ganolfan yw sicrhau y cynhelir unrhyw arholiadau mewn safleoedd eraill dan amodau '*Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*' y CGC.
- Sicrhau bod staff yn deall gofynion asesiadau di-arholiad fel y nodwyd ym manyleb y cymhwyster CBAC/Eduqas, dogfennau'r CBC *'Cyfarwyddiadau ar gynnal Asesiad Di-arholiad*', *'Cyfarwyddiadau ar gynnal gwaith cwrs (cymwysterau Lefel Mynediad a Project)'* a *'Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau dan reolaeth'* CBAC*'.* Yn ôl gofynion dogfen y CGC *'Rheoliadau Cyffredinol i Ganolfannau Cymeradwy'* (yn Gymraeg ar wefan CBAC), mae'n ofynnol i ganolfannau gael polisi ysgrifenedig ynghylch rheoli asesiadau di-arholiad sy'n cynnwys manylion ynghylch sut y bydd gwaith ymgeiswyr yn cael ei ddilysu.
- Sicrhau bod gan y ganolfan weithdrefn apelio fewnol ysgrifenedig yn ymwneud â phenderfyniadau asesu mewnol, mynediad at wasanaethau ar ôl y canlyniadau ac apeliadau, a phenderfyniadau'r ganolfan o ran trefniadau mynediad ac ystyriaeth arbennig, a sicrhau y cyfathrebir manylion am y weithdrefn hon, a'i bod wedi'i dosbarthu, i bob ymgeisydd.
- Sicrhau bod pob aelod o staff sy'n rheoli ac yn gweithredu trefniadau ystyriaeth arbennig a threfniadau mynediad yn ymwybodol o'r gofynion yn nogfennau'r CGC *'Addasiadau ar gyfer ymgeiswyr ag anableddau ac anawsterau dysgu'* a *'Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig'.* Rhaid i'r ganolfan gadw tystiolaeth i gefnogi ceisiadau mynediad a dylai'r dystiolaeth hon fod ar gael i'w harchwilio yn rhan o ymweliadau arolygu canolfannau'r CGC.
- Sicrhau nad yw aelodau o staff yn trosglwyddo unrhyw wybodaeth gyfrinachol am arholiadau a deunyddiau asesu gan gynnwys drwy'r cyfryngau cymdeithasol.
- Gofyn i staff adrodd am unrhyw wrthdaro buddiannau posibl yn ôl polisi eu canolfan a sicrhau bod unrhyw wrthdaro o'r fath yn cael ei reoli yn y ganolfan er mwyn cynnal uniondeb yr asesiad(au).
- Sicrhau bod gan y ganolfan bolisi camymddwyn ysgrifenedig a bod y staff i gyd yn gwybod gweithdrefnau'r ganolfan ar gyfer adrodd am unrhyw honiadau neu amheuon o gamymddwyn neu gamymddwyn gwirioneddol wrth CBAC.Rhaid i'r polisi roi manylion ynghylch y ffordd y caiff ymgeiswyr eu hysbysu a'u cynghori i osgoi camymddwyn mewn arholiadau/asesiadau a'r ffordd y dylid uwchgyfeirio materion yn ymwneud ag achosion o amau camymddwyn yn y ganolfan a'r ffordd y dylid adrodd am yr achosion hynny wrth y corff dyfarnu perthnasol. Rhaid iddo hefyd gydnabod y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial (AI) (e.e. beth yw AI, pryd mae'n bosibl ei ddefnyddio a sut y dylid ei gydnabod, risgiau defnyddio AI, beth yw ystyr camymddwyn AI a sut y bydd hyn yn cael ei drin fel camymddwyn). Hefyd, gellir cynnwys camymddwyn ar gofrestr asesiad risg canolfan i sicrhau bod atal camymddwyn yn cael ei fewnblannu yn ffordd y ganolfan o weithio.

## 4.2 Atal camymddwyn gan ymgeiswyr

- Sicrhau bod pob hysbysiad gan y *CGC* (yn Gymraeg ar wefan CBAC) e.e. *Gwybodaeth i ymgeiswyr, asesiadau di-arholiad, gwaith cwrs, profion ar-sgrin, arholiadau ysgrifenedig, cyfryngau cymdeithasol, llên-ladrad* yn cael eu dosbarthu i ymgeiswyr cyn cynnal asesiadau/arholiadau.
- Sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu hysbysu ar lafar ac yn ysgrifenedig o'r amodau sy'n ofynnol ar gyfer cynnal yr asesiadau, gan gynnwys rhybuddion am gyflwyno deunyddiau a dyfeisiau sydd wedi'u gwahardd yn yr asesiadau, a mynediad at adnoddau cyfyngedig.
- Sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r gweithredoedd hynny sy'n cyfrif fel camymddwyn a'r cosbau y bydden nhw'n eu derbyn am gamymddwyn. Bydd atgoffa rheolaidd yn helpu i atgyfnerthu dealltwriaeth dysgwyr o beth yw camymddwyn; mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ddefnyddiol yn hyn o beth.
- Sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o sancsiynau'n deillio o ddefnydd amhriodol o'r cyfryngau cymdeithasol fel rhannu gwybodaeth asesu yn cynnwys eu gwaith eu hunain neu waith pobl eraill, cyd-dwyllo â phobl eraill neu ledaenu straeon am asesiadau ar-lein, ac y gallant dderbyn sancsiynau os ydynt yn camymddwyn drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r CGC yn cyhoeddi ffeithlun ar gyfer ymgeiswyr gyda chanllawiau ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn ddoeth '*JCQ Social Media Infographic*' (www.jcq.org.uk).
- Sicrhau bod ymgeiswyr yn gwbl ymwybodol o'r sancsiynau'n ymwneud â ffonau symudol neu unrhyw ddyfeisiau eraill neu ddeunydd nad ydynt yn cael eu caniatáu. Yr adroddiad mwyaf cyffredin y mae CBAC yn ei dderbyn am gamymddwyn gan ymgeiswyr yw bod ffonau symudol neu ddyfais arall ym meddiant ymgeiswyr mewn ystafell arholiadau. Dylid pwysleisio wrth ymgeiswyr y bydd cael ffôn symudol/watsh/dyfais arall waharddedig yn eu meddiant yn arwain at golli marciau am yr uned/cydran honno hyd yn oed os nad ydynt yn bwriadu defnyddio'r ddyfais neu os oeddent wedi anghofio ei bod ganddyn nhw. Os oes tystiolaeth bod ymgeiswyr wedi defnyddio dyfais, byddai hynny'n arwain at ddiarddel o'r cymhwyster. Dylid atgoffa goruchwylwyr o bwysigrwydd darllen yn uchel y cyfarwyddyd am ffonau symudol a dyfeisiau eraill ar ddechrau arholiadau neu asesiadau eraill lle maent wedi'u gwahardd.
- Sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o sancsiynau'n deillio o lên-ladrad. Achos cyffredin arall o gamymddwyn yw llên-ladrad. Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol bod CBAC yn defnyddio peiriannau chwilio rhyngrwyd a meddalwedd cyfrifiadurol arbenigol i ganfod llên-ladrad. Dylai canolfannau sicrhau bod ymgeiswyr sy'n cwblhau gwaith cwrs neu asesiadau di-arholiad yn ymwybodol mai eu gwaith nhw eu hunain ddylai unrhyw waith fod a'u bod yn cael cyfarwyddiadau clir o ran sut i osgoi llên-ladrad (gan gynnwys camddefnyddio AI).
- Dylid atgoffa ymgeiswyr pryd y gellir ystyried defnyddio AI yn achos o amau camymddwyn. Bydd ymgeiswyr sy'n camddefnyddio AI pan fyddant yn cyflwyno gwaith asesu nad yw'n waith eu hunain wedi camymddwyn ac efallai y byddant yn derbyn sancsiwn difrifol.
- Sicrhau bod cynllun yn ei le yn ymwneud â threfniadau i'w dilyn mewn achosion o arholiadau'n gwrthdaro a bod y drefn honno wedi'i rheoli'n effeithiol i wneud yn siŵr nad oes modd i ymgeiswyr drosglwyddo na derbyn gwybodaeth am gynnwys asesiadau, a chamymddwyn wrth wneud hynny.
- Sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r sancsiynau'n ymwneud â throsglwyddo neu dderbyn deunyddiau asesu cyfrinachol (hyd yn oed os na ofynnwyd am y wybodaeth

honno). Os bydd ymgeisydd yn derbyn gwybodaeth gyfrinachol yna rhaid iddo roi gwybod i aelod o staff y ganolfan am hynny ar unwaith.

**Nid yw dweud nad oedd rhywun yn gwybod am gamymddwyn yn amddiffyniad dilys rhagddo. Ni chaiff hynny ei ystyried yn ffactor lliniarol wrth**

# 5 Adrodd am gamymddwyn

## 5.1 Camymddwyn gan ymgeiswyr

Rhaid i Bennaeth y Ganolfan neu uwch aelod penodol o staff ymchwilio i unrhyw amheuaeth, honiad neu achos penodol o gamymddwyn. Yna, rhaid cyflwyno adroddiad i CBAC gan ddefnyddio'r ffurflen JCQ/M1 (www.jcq.org.uk). **Rhaid** rhoi cyfle i'r ymgeisydd ddarparu datganiad. Dylid anfon y ffurflen a'r dystiolaeth ategol at camymddwyn@cbac.co.uk dros e-bost. Rhaid i'r ffurflen gynnwys llofnod/llofnod electronig Pennaeth y Ganolfan a'r dyddiad. Gall y ganolfan ei hun ymdrin â chamymddwyn gan ymgeisydd mewn asesiad mewnol ar yr amod nad yw'r ymgeisydd wedi llofnodi'r datganiad dilysrwydd. Mewn achosion o'r fath, ni ddylid derbyn y gwaith asesiad mewnol oedd yn cael ei gwblhau pan ddigwyddodd y camymddwyn. Gall yr ymgeisydd, yn amodol ar gyfyngiadau'r fanyleb, ymgymryd â gwaith newydd i'w gyflwyno. Y ganolfan sydd i benderfynu ar hyn. Rhaid i'r ganolfan gael gweithdrefn apeliadau mewnol yn ei lle i ymdrin ag apeliadau yn erbyn ei phenderfyniadau am asesiadau mewnol. Os yw'r ymgeisydd wedi llofnodi'r datganiad dilysrwydd, rhaid adrodd am yr achos o gamymddwyn wrth CBAC.

## 5.2 Camymddwyn gan staff y ganolfan

**Rhaid** adrodd ar unwaith am bob achos o amau camymddwyn gan staff y ganolfan wrth CBAC gan ddefnyddio ffurflen JCQ/M2 (www.jcq.org.uk) a'i hanfon dros e-bost at camymddwyn@cbac.co.uk. **Rhaid** cynnwys llofnod/llofnod electronig a'r dyddiad ar y ffurflen.

Bydd CBAC ei hun yn casglu gwybodaeth os yw Pennaeth y Ganolfan neu reolwyr y ganolfan yn ymwneud ag unrhyw honiad, neu gall ofyn i unigolyn (unigolion) heb unrhyw wrthdaro buddiannau neu fudd personol gynorthwyo gyda'r gwaith o gasglu gwybodaeth e.e. Cyfarwyddwr Addysg neu Gadeirydd y Llywodraethwyr. Mewn achosion eraill, gellir gofyn i Bennaeth y Ganolfan neu uwch aelod dynodedig o staff gasglu gwybodaeth dan arweiniad a chyfarwyddyd CBAC.

**Rhaid rhoi gwybod i CBAC am bob achos o amau neu honni camymddwyn neu unrhyw achosion sy'n cael eu profi. Nid lle staff y ganolfan yw penderfynu a ydyn nhw am adrodd am achos wrth CBAC. Os nad yw staff y ganolfan yn adrodd am gamymddwyn mae hynny ynddo'i hun yn gamymddwyn.**

## 5.3 Camau i'w cymryd os oes amheuaeth o gamymddwyn

Os yw aelod o staff yn credu eu bod wedi bod yn dyst i gamymddwyn, dylent roi gwybod i

Bennaeth eu Canolfan yn y lle cyntaf. Dyletswydd Pennaeth y Ganolfan yw cyflwyno adroddiad am bob achos o'r fath i CBAC. Os yw'r unigolyn yn credu y gall fod dan anfantais neu'n poeni am godi materion o'r fath â Phennaeth eu Canolfan neu os yw'n credu bod ei Uwch Dîm Rheoli ynghlwm â'r mater, gall gysylltu'n uniongyrchol â CBAC.

Gall unrhyw unigolyn sydd â phryder gwirioneddol adrodd am gamymddwyn yn ddienw neu wneud cais i aros yn ddienw. Ni fydd CBAC yn enwi unigolyn oni bai bod gofyn gwneud hynny yn ôl y gyfraith. Cofiwch, er na fydd enw na manylion personol eraill am yr unigolyn sy'n gwneud honiad yn ddienw yn cael eu rhannu, efallai y bydd yr honiad a wneir yn cael ei rannu â staff perthnasol y ganolfan er mwyn ymchwilio i'r honiad. Er mwyn cefnogi unrhyw ymchwiliad posibl dylech ddarparu ar unwaith yr holl wybodaeth rydych chi'n ymwybodol ohoni. Bydd darparu gwybodaeth sy'n fanwl, amserol a chlir yn galluogi i ni ymchwilio achosion yn fwy effeithiol (gweler adran 6 am y math o wybodaeth sy'n bwysig).

Os oes gennych unrhyw wybodaeth ynglŷn â chamymddwyn, anfonwch e-bost at Dîm Cydymffurfio CBAC camymddwyn@cbac.co.uk.

Mae gwybodaeth bellach ynglŷn â sut i wneud honiad i'w chael yn nogfen y CGC 'Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd' (www.jcq.org.uk).

Bydd CBAC yn gwerthuso'r honiadau a dderbynnir i wirio a fyddent yn cael eu hystyried yn gamymddwyn pe byddent yn cael eu cadarnhau. Efallai y bydd CBAC yn cysylltu â'r person a wnaeth yr honiad i ofyn am fwy o wybodaeth neu eglurder. Yna bydd ymchwil desg yn cael ei wneud mewn perthynas â chanolfan i gasglu unrhyw dystiolaeth ffeithiol berthnasol ar gofnod i gefnogi ymholiadau pellach. Bydd CBAC yn coladu ac yn adolygu'r wybodaeth o'r honiad a'r ymchwil dilynol i ganfod a oes angen ymchwilio ymhellach ac i bennu'r ffordd fwyaf priodol o gasglu mwy o wybodaeth. Os oes achos rhesymol i amau camymddwyn, bydd CBAC yn ymchwilio i'r mater yn hynny o beth.

Ni fydd CBAC yn adrodd am ganlyniad achosion o gamymddwyn wrth unigolion sy'n gwneud honiadau nac yn rhannu manylion am unrhyw ymchwiliadau a allai ddilyn. Bydd gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin yn sensitif a chyfrinachol a bydd CBAC yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

# 6. Darparu gwybodaeth i gefnogi ymchwiliad o gamymddwyn

## 6.1 Gweithgareddau a gynhelir gan y ganolfan

Rhaid i'r broses o gasglu gwybodaeth ar gyfer amheuon neu honiadau o gamymddwyn neu gamymddwyn gwirioneddol gael ei chynnal gan unigolyn (unigolion) cymwys yn y ganolfan **nad oes** ganddo unrhyw wrthdaro buddiannau real na chanfyddedig yn yr achos, pan gytunir gan CBAC ei bod yn addas i ganolfan wneud hyn. Ystyrir bod unigolyn yn gymwys os yw wedi darllen a deall dogfen y CGC *'Amau Camymddwyn – Polisïau a Gweithdrefnau'*. Bydd CBAC yn rhoi canllawiau i Bennaeth y Ganolfan ynglŷn â'r trywydd i'w ddilyn ar gyfer yr ymchwiliadau.

Mae'r cwestiynau canlynol yn ddefnyddiol wrth asesu a oes gwrthdaro buddiannau neu fudd personol ai peidio:

- A allai'r unigolyn sy'n casglu'r wybodaeth elwa'n ariannol, yn bersonol neu gael mantais neu anfantais i'w enw da oherwydd canlyniad yr ymchwiliad?
- A oes gan yr ymchwiliwr berthynas bersonol neu berthynas broffesiynol agos â'r sawl a gyhuddir?

Dylai'r wybodaeth gynnwys manylion ynghylch:

- pwy oedd yn ymwneud â'r digwyddiad, yn cynnwys ymgeiswyr, aelodau o staff a/neu oruchwylwyr.
- ffeithiau'r achos, yn ôl yr hyn a gadarnhawyd ar sail y dystiolaeth a/neu ddatganiadau gan y rhai dan sylw.

Wrth gasglu gwybodaeth, dylid ystyried y camau canlynol:

- Pwysleisio wrth bawb mai honiad o gamymddwyn yw'r wybodaeth a dderbyniwyd ac mai pwrpas yr ymchwiliad yw canfod y ffeithiau.Penderfynu pwy ddylai gasglu'r dystiolaeth ynglŷn â honiad/digwyddiad yn y ganolfan, ar ôl ystyried unrhyw wrthdaro buddiannau posibl.
- Sicrhau bod y sawl sy'n casglu'r wybodaeth yn gwbl sicr beth yw gofynion CBAC a pha ffurflenni i'w llenwi.
- Cadw cofnod o bob trafodaeth a'r camau a gymerwyd yn ystod y broses o gasglu tystiolaeth a chadw'r wybodaeth am gyfnod priodol. Os yw'r ymchwiliad yn rhan o erlyniad troseddol neu achos sifil, dylid cadw cofnodion a dogfennau am y cyfnod gofynnol o amser ar ôl yr achos a hyd nes y bydd gwrandawiad unrhyw apeliadau wedi bod.
- Rhoi gwybod i'r unigolyn (unigolion) a gyhuddir o gamymddwyn ar y cyfle cyntaf beth yw natur yr honiad, yn ysgrifenedig fyddai orau, gan ddweud wrtho beth fydd y canlyniadau posibl pe byddai'r camymddwyn yn cael ei brofi. Rhoi gwybod iddo pa hawliau sydd ganddo – **rhaid** iddo gael y cyfle i ymateb, yn ysgrifenedig fyddai orau, i'r honiad a wneir yn ei erbyn.
- Nodi'r holl ffynonellau gwybodaeth posibl ac ystyried sut byddai modd casglu'r dystiolaeth yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon e.e. cyfweliadau ag unigolion, cofnodion ysgrifenedig, taflenni presenoldeb, lluniau camerâu cylch cyfyng. Mae'n bwysig casglu'r wybodaeth cyn gynted â phosibl gan y gallai tystiolaeth gael ei cholli.

- Wrth gyfweld unigolion, paratoi cwestiynau ymlaen llaw (gan gynnwys y rhai a ddarparwyd gan CBAC) a gwneud nodyn o'r cyfarfod. Dylid anfon hwn at y sawl sy'n cael ei gyfweld i'w lofnodi a'i ddyddio fel cofnod cywir. Dylid cynnal cyfweliadau'n unol â pholisïau'r ganolfan. Efallai yr hoffai'r cyfwelydd gael unigolyn gydag ef i wneud nodiadau.
- Dylid hysbysu'r rhai sy'n cael eu cyfweld y gallai gwybodaeth a gasglwyd yn rhan o gyfweliad gael ei rhannu ag unigolion eraill sy'n ymwneud â'r ymchwiliad.
- Dylid dilyn polisi diogelu'r ganolfan wrth gynnal cyfweliadau â phlant neu oedolion sy'n agored i niwed.
- Coladu'r holl wybodaeth a gesglir, e.e. yr hyn ddigwyddodd (natur y camymddwyn), pam y digwyddodd, pwy oedd yn rhan o'r digwyddiad, pryd a ble y digwyddodd, sut mae angen i'r ganolfan weithredu i atal rhywbeth fel hyn rhag digwydd eto.
- Cwblhau'r adroddiad i CBAC gan ddefnyddio ffurflenni JCQ M1 (ar gyfer camymddwyn gan ymgeiswyr) a JCQ M3 (ar gyfer camymddwyn gan staff y ganolfan) gan sicrhau bod yr holl wybodaeth ategol wedi'i chynnwys megis datganiadau ysgrifenedig (bod yr unigolyn wedi gwirio, llofnodi a dyddio'r rhain), copïau o ohebiaeth, gwaith ymgeiswyr ac unrhyw gofnodion eraill.
- Ystyried a oes angen i chi hysbysu Teaching Regulation Agency (Lloegr) neu'r Cyngor Gweithlu Addysg (Cymru).

**Os yw'r broses o gasglu gwybodaeth yn cael ei dirprwyo i aelod arall o staff y ganolfan, Pennaeth y Ganolfan fydd yn gyfrifol am y broses yn y ganolfan ac am adrodd i CBAC o hyd.**

## 6.2 Gweithgareddau a gynhelir gan CBAC ei hun

Mae CBAC yn cadw'r hawl i gasglu gwybodaeth ei hun os yw'n teimlo mai gweithredu felly yw'r peth gorau i'w wneud. CBAC sy'n penderfynu sut y dylid cynnal ymchwiliad bob amser. Mae'r wybodaeth ganlynol yn amlinellu dull nodweddiadol a ddefnyddir wrth ymchwilio.

- Ni fyddai CBAC fel arfer yn cadw unrhyw wybodaeth a gafwyd yn ystod yr ymchwiliad i honiad o gamymddwyn rhag Pennaeth Canolfan. Fodd bynnag, i gydymffurfio â'r ddeddf diogelu data, gall CBAC atal unrhyw wybodaeth am hunaniaeth ffynhonnell sydd wedi gofyn am gael cadw ei fanylion yn gyfrinachol. Mewn achosion o'r fath, bydd CBAC yn esbonio pam nad oes modd darparu'r wybodaeth a ataliwyd.

- Ni fydd unrhyw wybodaeth nad yw CBAC yn ei chyflwyno i'r sawl a gyhuddir (a Phennaeth ei Ganolfan, os yn berthnasol) yn cael ei chyflwyno i'r corff gwneud penderfyniadau, e.e. pwyllgor camymddwyn, pan fyddant yn ystyried a yw honiad o gamymddwyn wedi cael ei brofi.

- O bryd i'w gilydd, gall fod angen i CBAC gyfweld dysgwr yn ystod ymchwiliad. Os yw'r dysgwr yn blentyn neu'n oedolyn agored i niwed, dim ond pan fydd oedolyn priodol yn bresennol y bydd CBAC yn gwneud hynny.

- Pan fydd swyddog CBAC yn cyfweld aelod o staff y ganolfan, gall ffrind neu ymgynghorydd (a allai fod yn gynrychiolydd cymdeithas athrawon neu gymdeithas arall) fod yn bresennol. Os yw'r sawl sy'n cael ei gyfweld am gael presenoldeb ymgynghorydd cyfreithiol, dylid hysbysu CBAC ymlaen llaw er mwyn rhoi'r cyfle iddyn nhw ac unrhyw bartïon eraill gael cefnogaeth debyg. Ni ddylai'r sawl sydd gyda'r sawl sy'n cael ei gyfweld gymryd rhan weithredol yn y cyfweliad. Yn benodol, ni ddylai'r unigolyn hwnnw

ateb cwestiynau ar ran y sawl sy'n cael ei gyfweld.

- Bydd y cyfarfod yn cael ei recordio (sain a/neu fideo) er mwyn gwneud cofnod cywir, os yw'r sawl sy'n cael ei gyfweld yn cytuno ar hynny. Bydd trawsgrifiad o'r cyfweliad ar gael o fewn 28 diwrnod i'r cyfweliad, a bydd gofyn i'r sawl sy'n cael ei gyfweld gadarnhau ei fod yn gywir o fewn 14 diwrnod i'w dderbyn. Bydd y recordiad yn cael ei ddileu wedyn. Gellir gofyn hefyd i'r sawl sy'n cael ei gyfweld ddarparu datganiad ysgrifenedig. Gellir cynnal cyfarfodydd i gasglu gwybodaeth wyneb yn wyneb neu o bell.

Mae cyhoeddiad y CGC '*Amau Camymddwyn – Polisïau a Gweithdrefnau*' (www.jcq.org.uk) yn rhoi manylion llawn a chanllawiau am y weithdrefn i'w dilyn wrth ymdrin ag achosion o amau camymddwyn.

## 7. Gwneud penderfyniadau a sancsiynau

Mae rhestr o sancsiynau i'w gweld yn nogfen y CGC *'Amau Camymddwyn – Polisïau a Gweithdrefnau'*.

### 7.1 Penderfyniadau – camymddwyn gan ymgeiswyr

Aelod o staff CBAC fydd yn penderfynu ar achos o gamymddwyn gan ymgeiswyr. Anfonir llythyr yn nodi'r penderfyniad a wnaed a manylion unrhyw sancsiynau a gymhwyswyd at Bennaeth y Ganolfan ac yntau wedyn ddylai roi copi o'r llythyr i'r ymgeisydd/rhiant/gofalwr. Bydd hwn yn rhoi manylion y weithdrefn apelio.

### 7.2 Penderfyniadau – camymddwyn gan ganolfan a staff y ganolfan

Uwch Swyddog CBAC neu Bwyllgor Camymddwyn CBAC fydd yn penderfynu ar achosion o gamymddwyn gan ganolfan a staff canolfan. Fel arfer, bydd y pwyllgor hwn yn cynnwys tri unigolyn profiadol y bydd pob un ohonynt wedi derbyn hyfforddiant am weithdrefnau Camymddwyn CGC a CBAC. Bydd y pwyllgor yn gwneud y penderfyniad yn seiliedig ar wybodaeth ysgrifenedig. Rhoddir cyfle i'r unigolyn (unigolion) dan sylw ddarparu datganiad i'r pwyllgor. Ni chaniateir i gynrychiolwyr canolfannau a/neu'r unigolion y gwrandewir yr achos yn eu herbyn fod yn bresennol yn y cyfarfodydd.

Bydd y llythyr sy'n rhoi'r penderfyniad yn cynnwys y rhesymau dros unrhyw sancsiwn (sancsiynau) a osodir yn cael ei anfon at Bennaeth y Ganolfan. Rhaid rhoi copi o'r llythyr hwn i bob un o'r unigolion sy'n ymwneud â'r camymddwyn.

Mewn achosion syml, er enghraifft pan nad yw'n ymddangos bod her nac amheuaeth i'r wybodaeth, gall CBAC alw am drefn ddiannod i benderfynu ar gamymddwyn gan ganolfan neu staff y ganolfan. Mewn achosion o'r fath, gall Uwch Swyddog CBAC benderfynu bod camymddwyn wedi digwydd a gosod sancsiwn neu sancsiynau. Os caiff sancsiwn ei gyflwyno o dan y weithdrefn ddiannod, gall yr unigolyn (unigolion) neu'r ganolfan a gafodd y sancsiwn herio'r penderfyniad drwy ofyn i'r mater gael ei gyfeirio at y Pwyllgor Camymddwyn. Mae ganddynt 14 diwrnod i wneud hynny. Bydd y Pwyllgor Camymddwyn yn ystyried y mater o'r newydd a gall ddod i gasgliad gwahanol ynghylch a oedd camymddwyn wedi digwydd, a gall benderfynu cyflwyno'r un sancsiwn (sancsiynau), neu sancsiwn (sancsiynau) llai neu fwy difrifol. Os bydd y Pwyllgor Camymddwyn yn penderfynu y dylid cyflwyno sancsiynau, gellir apelio yn eu herbyn yn unol â'r broses Apeliadau a nodir yn adran 8 isod.

Mewn nifer fach o achosion, gall CBAC ymchwilio i'r un honiadau o gamymddwyn â chyrff dyfarnu arall ar yr un pryd. Hefyd, gyda rhai achosion o gamymddwyn sy'n gyffredin i fwy nag un cyrff dyfarnu, gellir ethol un cyrff dyfarnu i arwain yr ymchwiliad ar ran y cyrff dyfarnu eraill sy'n gysylltiedig. Mae holl gyrff dyfarnu'r CGC wedi cytuno, ar gyfer ymchwiliadau lle mae un neu fwy o gyrff dyfarnu yn ymchwilio i'r un camymddwyn honedig neu'n ymwneud â'r un camymddwyn, y bydd 'Pwyllgor Camymddwyn ar y Cyd' yn cael ei gynnull lle bo'n berthnasol i benderfynu ar unrhyw ganlyniad. Bydd y Pwyllgor Camymddwyn ar y Cyd a gynullir yn gwneud penderfyniadau y bydd CBAC wedyn yn glynu atynt wrth gloi'r ymchwiliad, gan ddilyn yr egwyddorion a amlinellir ym Mholisïau Camymddwyn Amheus y CGC. Bydd unrhyw apêl yn erbyn penderfyniad a wneir gan Bwyllgor Camymddwyn ar y Cyd yn cael ei chlywed gan Bwyllgor Apêl ar y Cyd, gan ddilyn yr egwyddorion a amlinellir yn llyfryn Apêl y CGC.

## 7.3 Sancsiynau – camymddwyn gan ymgeiswyr

Mae manylion ynghylch sancsiynau y gellir eu gosod yn erbyn ymgeiswyr wedi'u nodi yn nogfen y CGC *'Amau Camymddwyn* – Polisïau a Gweithdrefnau' a gallant gynnwys rhybudd ysgrifenedig, atal rhai o'r marciau neu'r marciau i gyd a ddyfarnwyd mewn arholiad/asesiad, neu atal y cymhwyster/cymwysterau. Mewn achosion mwy difrifol, bydd y sancsiynau'n cynnwys gwahardd ymgeiswyr rhag cofrestru am arholiadau gyda CBAC. Lle y bo'n briodol, hysbysir holl gyrff dyfarnu eraill y CGC am yr achosion a'r canlyniadau.

## 7.4 Sancsiynau – camymddwyn gan staff y ganolfan

Mae manylion ynghylch sancsiynau y gellir eu gosod yn erbyn staff y ganolfan wedi'u nodi yn nogfen y CGC *'Amau Camymddwyn – Polisïau a Gweithdrefnau*' a gallant gynnwys rhybudd ysgrifenedig, gosod amodau arbennig, y gofyn am oruchwyliaeth neu ailhyfforddi, neu wahardd y staff dan sylw rhag ymwneud â gwaith arholiad am gyfnod o hyd at bum mlynedd.

## 7.5 Sancsiynau – camymddwyn gan ganolfan

Mae manylion ynghylch sancsiynau y gellir eu gosod yn erbyn staff y ganolfan wedi'u nodi yn nogfen y CGC *'Amau Camymddwyn – Polisïau a Gweithdrefnau*' a gallant gynnwys rhybudd ysgrifenedig, y gofyn am gynllun gweithredu, monitro ychwanegol, atal ardystiad, atal ymrestriad ac ardystiad, tynnu'r gymeradwyaeth am gymwysterau penodol yn ôl, tynnu cymeradwyaeth y ganolfan yn ôl.

Lle bynnag mae camymddwyn gan staff y ganolfan neu gan y ganolfan ei hun wedi effeithio ar ganlyniadau'r ymgeiswyr, bydd CBAC yn gweithredu'n briodol i ddiogelu uniondeb asesiadau a buddiannau'r ymgeiswyr dan sylw. Pan osodir sancsiwn ar aelod o staff y ganolfan a bod yr unigolyn hwnnw'n symud i ganolfan wahanol, cyfrifoldeb Pennaeth y Ganolfan lle y digwyddodd y camymddwyn yw hysbysu pennaeth y ganolfan newydd yn yr achosion hynny lle mae'r sancsiwn hwnnw'n gyfredol o hyd.

Mewn achosion o gamymddwyn gan ganolfan a staff canolfan lle mae effaith andwyol, bydd CBAC yn hysbysu'r rheoleiddiwr priodol – Cymwysterau Cymru, Ofqual yn Lloegr neu CCEA yng Ngogledd Iwerddon.

Gall CBAC hysbysu trydydd partïon sydd â budd dilys, e.e. cyrff dyfarnu eraill, y Teaching Regulation Agency neu'r Cyngor Gweithlu Addysg. Mae'n rhaid i Bennaeth y Ganolfan ystyried a ddylai yntau hysbysu'r Teaching Regulation Agency neu'r Cyngor Gweithlu Addysg ei hun.

Nid yw CBAC yn gwneud unrhyw sylw wrth y cyfryngau am ymchwiliadau o gamymddwyn nac am unrhyw benderfyniadau a wneir.

## 8. Apeliadau

Rhaid i CBAC dderbyn apeliadau yn erbyn penderfyniadau camymddwyn ymhen 2 wythnos galendr o dderbyn y canlyniad drwy ddefnyddio ffurflen y CGC *'Cais am Apêl'* (www.jcq.org.uk). Mewn achos o gamymddwyn gan ymgeisydd, mae'n rhaid i'r apelydd (Pennaeth y Ganolfan neu ymgeisydd preifat) gyflwyno'r apêl. Mewn achos o gamymddwyn gan staff canolfan, mae'n rhaid i Bennaeth y Ganolfan neu'r unigolyn dan sylw (apelydd) gyflwyno'r apêl.

Rhaid i'r rhesymau dros apelio fod yn rhai rhesymol, er enghraifft:

- Ni ymdriniwyd â'r digwyddiad yn unol â'r gweithdrefnau a gyhoeddwyd yng nghyhoeddiad y CGC 'Amau Camymddwyn Polisïau a Gweithdrefnau'
- Roedd y penderfyniad yn afresymol o ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Camymddwyn
- Roedd y sancsiwn a osodwyd yn anghymesur â difrifoldeb y camymddwyn.
- Mae mwy o dystiolaeth (yn cynnwys tystiolaeth feddygol) wedi dod i'r amlwg a all newid penderfyniad y corff dyfarnu;.

Nid yw'r canlynol, ynddynt eu hunain, yn rhesymau dros apelio:

- Nid oedd yr unigolyn yn bwriadu twyllo
- Mae gan yr unigolyn gofnod academaidd dilychwin
- Gall yr unigolyn golli ei le yn y brifysgol neu'r coleg
- Mae'n ddrwg iawn gan yr unigolyn am ei weithredoedd

Gellid gwrthod y cais am apêl ar ôl ei dderbyn os nad oes unrhyw wybodaeth newydd a bod sail cyflwyno'r apêl yn wan neu'n anghyfiawn.

**Ar gyfer apeliadau camymddwyn gan ymgeisydd,** os oes tystiolaeth resymol, bydd uwch swyddog sydd heb fod ynghlwm â'r achos gwreiddiol yn ystyried y dystiolaeth yn ystod y cam Apêl Ragarweiniol. Byddai Pwyllgor Apeliadau CBAC yn clywed ail gam yr apêl yn ystod Gwrandawiad yr Apêl. Anfonir llythyr at Bennaeth y Ganolfan / ymgeisydd preifat gyda'r penderfyniad a'r cyfiawnhad. Rhaid i'r ganolfan rannu'r canlyniad â'r ymgeiswyr a'u rhieni/gwarcheidwaid ar fyrder.

**Ar gyfer apeliadau camymddwyn gan ganolfan a staff y ganolfan**, os oes tystiolaeth resymol, bydd uwch swyddog yn CBAC (neu bwyllgor o swyddogion) sydd heb fod ynghlwm â'r achos gwreiddiol yn:

- Cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Apeliadau
- Gwrthod y rhesymau dros apelio.

Os oes angen, bydd gwrandawiad yn cael ei gynnal er mwyn i'r Pwyllgor Apeliadau ystyried yr achos. Bydd o leiaf tri unigolyn ar y pwyllgor fel arfer, gan gynnwys o leiaf un aelod annibynnol sydd heb weithio i CBAC yn y pum mlynedd diwethaf. Ni fydd wedi ymwneud â'r achos yn flaenorol ac ni fydd ganddo unrhyw wrthdaro buddiannau. Bydd CBAC yn cysylltu â'r apelydd/canolfan i benderfynu ar ddyddiad priodol ar gyfer y gwrandawiad.

Os yw'r apelydd yn penderfynu peidio â mynychu, bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar

sail y dystiolaeth ysgrifenedig. Bydd ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Apeliadau yn rhoi copi o'r holl ddogfennau a fydd yn cael eu hystyried gan y pwyllgor i'r apelydd. Bydd gan Gadeirydd y Pwyllgor yr hawl i benderfynu a fyddai unrhyw dystiolaeth bellach yn dderbyniadwy i'w chyflwyno yn y gwrandawiad ac a fyddai modd galw tystion.

Bydd gweithdrefnau gwrandawiad yr apêl a gwybodaeth am lwybrau apelio pellach yn dilyn y rheini a nodir yn nogfen y CGC '*Canllaw i brosesau apeliadau'r cyrff dyfarnu'* (yn Gymraeg ar wefan CBAC). Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r apelwyr am y broses ar ddechrau'r gwrandawiad.

Mae gwybodaeth bellach am apeliadau ar gael yn nogfen CBAC/Eduqas 'Canllaw i apeliadau' (www.cbac.co.uk / www.eduqas.co.uk).